



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Canllawiau ar weithredu'n ddiogel o fis Medi 2020 ymlaen (fersiwn 2.6)

Canllawiau yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu dysgu diogel o 1 Medi 2020 yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion.

Cyhoeddwyd gyntaf: 31 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 21 Rhagfyr 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Cynllunio i ddysgwyr ac i staff ddychwelyd yn ddiogel

Diogelu dysgwyr a staff agored i niwed

Mesurau diogelu

Gweithdrefnau Darparwyr

Trefniadau ar gyfer arholiadau'r gaeaf

Rheoli Fersiynau

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi'r manylion ar gyfer darparu'r dysgu o 1 Medi 2020 ymlaen yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion. Mae'n rhan o'n **Cynllun Cadernid** COVID-19 cyffredinol ar gyfer dysgu ôl-16; rydym hefyd wedi cyhoeddi ein **fframwaith strategol "Adnewyddu"** ar gyfer dysgu ôl-16 o fis Medi ymlaen, sy'n cynnwys yr egwyddorion a'r disgwyliadau cyffredinol ar gyfer y sector.

Mae gan bob dysgwr ôl-16 hawl i ddisgwyl rhaglen ddysgu o ansawdd uchel. I'r mwyafrif, bydd hyn yn golygu model "dysgu cyfunol" sy'n cyfuno elfennau o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell; mae ein fframwaith strategol a'n canllawiau **dysgu cyfunol** yn rhoi mwy o wybodaeth am yr egwyddorion sylfaenol allweddol. Bydd y cydbwysedd rhwng y dysgu wyneb yn wyneb a'r dysgu o bell yn amrywio er mwyn diwallu anghenion amrywiol dysgwyr a'u cymwysterau, a bydd y darparwyr dysgu yn cael hyblygrwydd i benderfynu sut y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

caiff hyn ei reoli ym mhob achos.

Er bod modelau darparu o bell ac ar-lein yn gallu bod o fudd mawr o ran darparu profiadau dysgu cyfoethog, mae dysgu wyneb yn wyneb yn rhan hanfodol o brofiad y dysgwr. Mae'n helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a gweithio mewn tîm, yn rhoi strwythur a threfn iddynt, ac yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arno i symud ymlaen tuag at ei nodau dysgu. Bydd dysgwyr yn amrywio o ran eu gallu i weithio'n annibynnol ac i gynnal eu cymhelliant, felly i lawer, bydd y drefn arferol yn hanfodol er mwyn parhau i ymgysylltu.

Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i ddarparwyr dysgu gael cydbwysedd rhwng diwallu anghenion addysgol dysgwyr, a sicrhau iechyd a diogelwch dysgwyr a staff. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr ddilyn y mesurau diogelu sydd yn y canllawiau hyn a blaenoriaethu camau a fydd yn helpu i leihau trosglwyddo COVID-19. I golegau ac i rai darparwyr dysgu eraill, mae hyn yn golygu defnyddio hierarchaeth o reolaethau a fydd yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau o ddysgu a dysgwyr.

Hyd yn oed o gynllunio â'r gofal mwyaf, nid yw'n bosibl cael gwared â risg gweithredu lleoliadau dysgu yn llwyr. Fodd bynnag, rhaid i bob weithle ac adeilad sydd ar agor i'r cyhoedd cymryd pob mesur rhesymol i **leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws**. Wrth gynllunio, dylai darparwyr ddilyn egwyddor sicrhau bod mesurau rheoli cadarn ar waith, fel na fydd dysgwyr a staff yn wynebu risg fwy o ran COVID-19 wrth ddysgu na'r risg sydd yn eu cymuned leol. Bydd dilyn y canllawiau hyn, a chydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o ran iechyd a diogelwch, yn helpu darparwyr i nodi a lleihau'r risgiau i'r graddau posibl. Dylai darparwyr gymryd camau i roi gwybod i ddysgwyr, rhieni a staff am y mesurau y maent yn eu cymryd a bod yn barod i drafod pryderon unigol.

Mae rhai agweddau ar y canllawiau hyn yn ymwneud yn benodol â dysgu sy'n digwydd ar gampysau colegau, neu mewn canolfannau dysgu eraill (yn cynnwys Addysg Oedolion yn y gymuned, elfennau "i ffwrdd o'r swydd" rhaglenni prentisiaeth, a rhaglenni cyflogadwyedd sy'n cael eu darparu mewn canolfannau). Yn yr achosion hyn, mae gan ddarparwyr dysgu reolaeth dros yr amgylchedd dysgu ac maent yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn ddiogel i ddysgwyr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

a staff. Yn achos dysgwyr cyflogedig, yn cynnwys prentisiaid, sy'n dysgu yn y gweithle, y cyflogwr sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr amgylchedd dysgu; ond mae'n rhaid i'r darparwr dysgu fodloni ei hun ynghylch diogelwch ei staff sy'n darparu'r dysgu yn y gweithle. Lle mae darparwyr yn trefnu lleoliadau gwaith i ddysgwyr, mae'n rhaid iddynt cynnal archwiliadau i sicrhau diogelwch dysgwyr.

Cynllunio i ddysgwyr ac i staff ddychwelyd yn ddiogel

Mae'n rhaid i bob darparwr dysgu unigol sicrhau bod ganddo ei gynlluniau ei hun a'i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb os ydyw'n ddiogel i'r dysgwr. Rhaid i ddarparwyr mynegi eu dull o rheoli risg a sut mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Yn seiliedig ar asesiadau risg lefel pwnc, os nad ydyw'n ddiogel i ddysgwr unigol i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, mae'n rhaid i'r ddarparwr rhoi Cynllun yn ei le er mwyn iddynt gael mynediad at eu rhaglen ddysgu o bell. Nid ydym yn disgwyl i ddarparwr i ymgymryd asesiad risg ar gyfer pob dysgwr unigol (ag eithrio dysgwyr o Sgiliau Byw Annibynnol, fel yr amlinellir yn y canllawiau yma), ond i rhoi dysgwyr a staff y cyfle i adnabod risgiau eu hunain ac i drafod unrhyw pryderon gyda'i darparwr.

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr:

- gynnal a chyhoeddi asesiad risg llawn a gweithredu trefniadau i reoli risgiau iechyd a diogelwch, er mwyn sicrhau bod gweithleoedd yn COVID-ddiogel cyn gofyn i ddysgwyr a staff i ddychwelyd (gweler canllawiau isod ar gyfer asesiadau risg) a chyfeirio at [canllawiau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#)
- ymgynghori â staff, undebau a rhanddeiliaid
- datblygu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chyflogwyr, yn cynnwys ffyrdd clir iddynt ofyn cwestiynau a mynegi pryderon
- yn achos dysgu ar gampws neu mewn canolfan, ystyried sut mae'r amgylcheddau dysgu a'r ardaloedd cymunedol yn cael eu paratoi i fodloni gofynion lleihau cyswllt ag amlinellir yn y canllawiau yma
- yn achos dysgu yn y gweithle, cynnal adolygiad iechyd a diogelwch o safle

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cyflogwr i asesu a yw'n ddiogel i aseswyr gynnal ymweliadau

- yn achos addysg oedolion, cynnal adolygiad iechyd a diogelwch o safleoedd cymunedol a ddefnyddir ar gyfer addysgu a dysgu, gan ddilyn [canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio canolfannau cymunedol amlbwrpas yn ddiogel](#)
- Ystyried sut y gellir awyru ardaloedd dysgu ymhellach i sicrhau bod awyr iach yn cael ei gylchredeg lle y bo'n bosibl
- cyfathrebu ymddygiad disgwylidig yn glir i ddysgwyr yn [cynnwys gofynion cadw pellter](#) cymdeithasol gofynion hylendid fel golchi dwylo'n rheolaidd a thrylwyr; beth i'w wneud os ydynt yn teimlo'n sâl; beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon neu orbryder; a beth fyddai'n digwydd pe na fyddent yn cydymffurfio â gofynion
- yn achos rhaglenni sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithle yn cynnwys prentisiaethau, cadarnhau gyda chyflogwyr pa drefniadau golchi dwylo ac hylendid anadlol a chadw pellter cymdeithasol priodol sydd ar waith a'u bod yn cyd-fynd â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020
- ystyried sut y dylai gofynion cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo ac hylendid anadlol gael eu hadlewyrchu mewn polisïau disgyblu a sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o unrhyw ganlyniadau diffyg cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol
- ystyried teithio i ac o ganolfannau dysgu, gan gyfeirio at [ganllawiau teithio a chanllawiau gorchuddion wyneb ar trafndiaeth cyhoeddus Llywodraeth Cymru](#)
- penderfynu ar ofynion glanhau a diheintio a materion megis ailgysylltu cyflawniadau dwr cyn ac ar ôl ailagor, gan gyfeirio at [ganllawiau Llywodraeth y DU ar ddihalogi mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd a chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar risgiau llen filwyr](#)
- ystyried gofynion darparu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ddysgwyr/neu staff, yn unol gyda asesiadau risg y darparwr (cyfeiriwch at adran 6 isod)
- ystyried yr amserlen, yn cynnwys oriau agor a seibiannau wedi'u gwasgaru, yn ogystal â seibiannau i ddysgwyr a staff ystod sesiynau o bell er mwyd osgoi blinder sgrin
- Cynllunio a pharatoi rhaglenni dysgu cyfunol, gan ddilyn yr egwyddorion allweddol ein [fframwaith adnewyddu](#) a [chanllawiau dysgu cyfunol](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

EWCH I <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> I WELD Y FERSIWN DDIWEDDARAF.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Defnyddio gorchuddion wyneb

Dylai staff a dysgwyr wisgo gorchuddion wyneb ym mhob ardal y tu allan i'r ystafell ddosbarth, lle mae'n anodd cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys wrth symud o amgylch y safle, er enghraifft yn y coridorau neu ardaloedd cymunedol lle nad yw'n hawdd cadw pellter cymdeithasol. Dylai hyn fod yn rhan o asesiad risg y darparwr, gan nad oes modd cadw gwahanol grwpiau cyswllt ar wahân i'r un graddau mewn ardaloedd cymunedol fel coridorau, a'i bod yn anodd cadw at fesurau rheoli eraill. Dylai gorchuddion wyneb hefyd gael eu gwisgo ar gludiant penodol i'r coleg.

Dylai ymwelwyr eraill, gan gynnwys rhieni, wisgo gorchuddion wyneb ym mhob rhan o'r safle (boed yn mynd i mewn i'r adeilad neu beidio), gan gynnwys manau codi a gollwng.

Mae ystyried lles dysgwyr yn hanfodol wrth ystyried defnyddio gorchuddion wyneb. Efallai y bydd angen darparu gorchuddion wyneb i grwpiau penodol o ddysgwyr na allant gael gafael arnynt fel arall, os ydynt yn cael eu hargymell yn lleol. Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o anghenion y rheini sydd efallai wedi'u heithrio, megis pobl ag anableddau neu anghenion cymhleth eraill sy'n golygu na allant ddefnyddio gorchudd wyneb yn y ffordd gywir, neu'r rhai hynny sy'n siarad â rhywun sy'n fyddar neu wedi colli eu clyw ar unrhyw lefel, neu'n rhoi cymorth i'r unigolion hynny.

Nid yw gorchuddion wyneb yn disodli mesurau rheoli mwy effeithiol megis cadw pellter cymdeithasol a chadw'r dwylo'n lân. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud i ddefnyddio gorchudd wyneb, byddem yn annog unigolion i ddefnyddio gorchuddion wyneb y gellid eu hailgylchu/eu hailddefnyddio a'u defnyddio'n gywir, gan orchuddio'r geg a'r trwyn, gan sicrhau bod y dwylo'n lân cyn rhoi'r gorchudd ac ar ôl ei dynnu. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymhell y dylai **gorchuddion wyneb** fod yn orchuddion tair haen ond nid oes rhaid iddynt fod yn fasgiau wyneb o ansawdd feddygol. Mae canllawiau ar y mathau o orchuddion wyneb, a sut i'w golchi a chael gwared â nhw yn briodol ac yn ddiogel yn ôl y math o orchudd, wedi'i gynnwys yn y **canllawiau ar orchuddion wyneb**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Os bydd cyfraddau trosglwyddo'r feirws yn codi yn lleol, neu os bydd clwstwr o achosion mewn coleg, bydd Tîm Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynghori os bydd angen unrhyw fesurau ychwanegol, gan gynnwys defnyddio gorchuddion wyneb.

Os yw darparwyr yn rhedeg unrhyw ganolfan sy'n agored i'r cyhoedd, megis caffi neu salon, mae gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol ar gyfer staff, dysgwyr, cwsmeriaid ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r ganolfan. Mae canllawiau i'r canolfannau hynny ar gael [yma](#). Mae'n rhaid i ddysgwyr sydd ar leoliad a thiworiaid sy'n ymweld â nhw gadw at y rheolau sydd yn eu lle yn y gweithleoedd hynny.

Waeth beth yw polisi eu darparwr, caiff dysgwyr a staff ddewis eu gwisgo er mwyn lleihau'r risg iddyn nhw'u hunain ac i eraill, a dylid eu hannog i wneud hynny os yw hyn yn rhoi mwy o hyder iddynt fynychu eu coleg neu eu lleoliad dysgu. Os yw unigolyn yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb am resymau personol yn unrhyw le yn y coleg, yna dylid caniatáu iddynt wneud hynny. Gall hyn fod o fudd i rai unigolion o ran hwyluso lles ehangach, lleihau pryder, a darparu tawelwch meddwl ychwanegol, ochr yn ochr â mesurau lliniarol eraill.

Diogelu dysgwyr a staff agored i niwed

Dysgwyr a staff sy'n eithriadol o agored i niwed neu a oedd yn 'gwarchod' o'r blaen

Bydd pobl sy'n eithriadol o agored i effeithiau COVID-19 am fod ganddynt gyflyrau iechyd penodol sy'n bodoli eisoes, wedi cael llythyr yn flaenorol yn eu cynghori o'r angen i 'warchod' eu hunain. Wedyn, cafodd y cyngor i warchod ei rewi o 16 Awst. Ond, ysgrifennodd Prif Swyddog Meddygol Cymru at yr unigolion hynny eto ar 23 Hydref i'w cynghori er nad oedd yn ofynnol iddynt ailddechrau gwarchod, bod cyngor ar gael iddynt ar sut i gadw'u hunain yn ddiogel.

Pan fo aelod o staff yn perthyn i'r categori eithriadol o agored i niwed (a oedd yn gwarchod), mae angen ystyried gweithio gartref fel y sefyllfa arferol pan fo

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

mesurau diogelu iechyd cenedlaethol neu leol ar waith, gan mai hwn fydd y mesur lliniaru mwyaf priodol ar gyfer eu sefyllfa nhw. Dylai darparwyr a chyflogwyr wneud ystyriaethau llawn, gan gymryd i ystyriaeth yr holl fesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y gweithle. Mae Llywodraeth Cymru'n argymhell y dylid cynnal asesiadau risg ar sail unigol ac y dylent ystyried anghenion ac amgylchiadau unigol. Er enghraifft, os yw aelod o staff sy'n eithriadol o agored i niwed yn fodlon dychwelyd i'r gwaith ac ymgymryd â dyletswyddau wyneb yn wyneb, dylid eu galluogi i wneud hynny cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol gan gymryd pob mesur rhesymol ac yn amodol ar fesurau lliniaru ychwanegol yn seiliedig ar eu hasesiad risg unigol. Mewn rhai achosion, megis rhai staff cymorth a thechnegol, ni fydd yn bosibl iddynt weithio o gartref ac felly mae'n bwysig iawn bod asesiadau risg yn cael eu diweddarau a phob mesur rhesymol wedi'u hystyried a'u rhoi yn eu lle. Mae hefyd yn bwysig bod pob aelod o staff a dysgwr sydd yn y categori hwn yn cael cyfle i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt cyn iddynt ddychwelyd i'r lleoliad addysg/gwaith, ac felly dylid trefnu cyfarfod ag unigolion er mwyn cynnal y trafodaethau hyn.

Gall staff ddefnyddio adnodd asesu risg Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithle i gynnal hunanasesiad. Mae nifer o fodelau y gellir eu defnyddio i gefnogi rheolwyr yn ystod trafodaethau gyda'u timau am ffactorau risg personol unigolyn wrth ddychwelyd at y gweithle, neu aros ynddo. Y nod yw helpu i alluogi sgysiaid adeiladol da rhwng rheolwyr a chydweithwyr am unrhyw amgylchiadau personol a allai gynyddu'r risg o'r coronafeirws, a chytuno ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd. Mae *Talking with your workers about working safely during the coronavirus pandemic* yn ganllawiau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar sut all cyflogwyr fynd ati i gynnal y sgwrs hon gyda staff.

Ar gyfer dysgwyr a staff a oedd yn gwarchod eu hunain yn flaenorol ac sy'n dychwelyd i'r lleoliad addysg/ coleg/canolfan ddysgu/gweithle, rhaid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod yr unigolion hynny'n benodol, ac eraill o'u hamgylch, yn cadw'n gaeth at **ganllawiau cadw pellter cymdeithasol llym** a'r **canllawiau ar gyfer gweithleoedd**.

Os yn ansicr a yw cyflwr iechyd unigolyn yn golygu na ddylent fod yn mynychu eu gweithle neu eu darparwr dysgu, dylai staff, dysgwyr, rhieni a gofalgwyr dderbyn cyngor gan eu meddyg teulu neu ysbyty. Efallai y byddant yn dymuno

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

trafod risgiau mynychu gyda'u meddyg a'u darparwr cyn gwneud penderfyniad, ac mae'n bosibl y bydd eu meddyg yn rhoi tystysgrif feddygol iddynt yn nodi na ddylent ddychwelyd am y tro.

Ni ddisgwylir i unrhyw aelod o staff sy'n wynebu 'risg uwch' ond sy'n mynychu'r gweithle gael ei osod gyda dysgwyr sydd methu cadw'n rhesymol at fesurau pellter cymdeithasol/corfforol.

Cynghorir menywod beichiog yn benodol i weithio gartref ar ôl 28 wythnos o feichiogrwydd. Mae canllawiau ar gyfer menywod beichiog a chyflogwyr ar gail ar [wefan](#) Coleg Brenhinol Obstetregyddion a Gynaecolegyddion.

Dysgwyr neu Staff sy'n wynebu 'risg uwch'

Mae unigolion sy'n wynebu '[risg uwch](#)' mewn mwy o berygl o salwch difrifol yn sgil COVID-19. Mae'r categori hwn yn cynnwys pobl dros 70 oed, menywod beichiog a'r rheini sydd ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd cronig.

Yr un yw'r cyngor i'r grŵp hwn ag i weddill y boblogaeth. Caiff dysgwyr a staff yn y categori hwn fynd i'w coleg neu eu canolfan, cyn belled â bod mesurau diogelu ar waith fel y nodir yn y canllawiau hyn a'r [canllawiau ar mesurau rhesymol](#). Lle bo'n bosibl, dylid cynnig yr opsiwn o weithio yn y swyddogaethau mwyaf diogel yn y gweithle, i'w galluogi nhw i gadw pellter cymdeithasol. Efallai y bydd darparwyr am annog unigolion i gynnal eu hasesiadau risg eu hunain, a chynnig cyfarfod gyda'r unigolyn i drafod ei bryderon.

Os nad yw'n glir a yw eu cyflwr iechyd yn golygu y dylent fod yn mynychu lleoliad eu darparwr ai peidio, dylai staff, dysgwyr, rhieni a gofalgwyr ofyn am gyngor gan eu meddyg teulu neu eu meddyg ysbyty. Efallai y byddant eisiau trafod risgiau mynd i'r lleoliad â'u meddyg a'u darparwr cyn penderfynu.

Ni ddisgwylir i unrhyw aelod o staff sy'n wynebu 'risg uwch' ond sydd yn fynychu'r gweithle i gael ei osod gyda dysgwyr sydd methu cadw'n rhesymol at mesurau pellter cymdeithasol/corfforol.

Cynghorir menywod beichiog yn benodol i weithio gartref ar ôl 28 wythnos o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gyfnod beichiogrwydd. Mae canllawiau ar gyfer menywod beichiog a chyflogwyr ar gail ar [wefan](#) Coleg Brenhinol Obstetregyddion a Gynaecolegyddion.

Byw gyda rhywun sy'n eithriadol o agored i niwed (a oedd yn arfer hunanwarchod)

Os yw dysgwr neu aelod o staff yn byw gyda rhywun a oedd yn arfer [hunanwarchod](#), dylent gadw'n gaeth at y mesurau cadw pellter cymdeithasol pan maent yn mynychu eu coleg neu eu canolfan ddysgu, a dylai'r dysgwr allu deall a dilyn y cyfarwyddiadau hynny. Efallai na fydd hyn yn bosibl i ddysgwyr sy'n methu dilyn y cyfarwyddiadau ar [gadw pellter cymdeithasol/corfforol](#). Yn yr achosion hynny, nid ydym yn disgwyl i'r dysgwyr hynny fod yn bresennol a dylid eu cefnogi i ddysgu gartref. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn yng ngoleuni'r [cyngor](#) diweddaraf ynghylch gwarchod.

Dysgwyr a staff sy'n poeni am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb

Dylid disgwyl i'r holl ddysgwyr a staff eraill fod yn bresennol yn unol â pholis presenoldeb eu darparwr ac amodau cyflogaeth y staff. Byddem yn disgwyl i ddysgwyr gael gwybod beth yw gofynion eu cwrs wrth gofrestru, gan gynnwys disgwyliadau o ran presenoldeb mewn coleg neu ganolfannau, ac wrth gofrestru eu bod yn ymrwmo i fod yn bresennol oni bai eu bod yn sâl.

Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o bryderon posibl dysgwyr a staff, a allai fod yn amharod neu'n bryderus ynghylch dychwelyd, a rhoi'r cyfathrebiadau a chefnogaeth briodol ar waith i fynd i'r afael â hyn. Gall hyn gynnwys rheini sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain yn flaenorol ond sydd wedi cael gwybod nad yw hyn yn angenrheidiol mwyach, y rheini sy'n byw mewn aelwydydd lle mae rhywun sy'n wynebu risg uwch, neu'r rheini sy'n pryderu am y risg gymharol uwch o'r coronafeirws (COVID-19), gan gynnwys y rheini o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu sydd â chyflyrau penodol fel gordewdra a diabetes.

Os yw dysgwyr neu staff sydd â ffactorau risg sylweddol (neu rhieni neu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

EWCH I <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> I WELD Y FERSIWN DDIWEDDARAF.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gofalwyr dysgwr) yn poeni, rydym yn argymhell bod y darparwr yn trafod eu pryderon ac yn rhoi sicrwydd ynghylch y mesurau y maent yn eu rhoi ar waith i leihau'r risg o fynychu. Efallai bydd yn posib i ddarparwyr rhoi trefniadau yn eu lle ar gyfer dysgu o bell ar gyfer rhai rhaglenni.

Caiff staff pob lleoliad addysg ddefnyddio ein **hadnodd asesu risg ar gyfer y gweithlu** er mwyn gwneud hunanasesiad o ffactorau risg COVID-19 a chynllunio camau i'w lleihau.

Dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

Ein nod yw sicrhau nad yw dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion.

Bydd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn elwa o ddysgu a chefnogaeth wyneb yn wyneb, a dylai hyn fod yn rhan o'u rhaglen ddysgu oni bai fod asesiadau risg yn dynodi nad yw'n ddiogel i ddysgwyr unigol ddychwelyd ar yr adeg hon. Pan na fydd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheini ar raglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol mewn AB, yn gallu elwa o ddull dysgu cyfunol, dylai darparwyr gynllunio i ddarparu rhaglen lawn o addysgu wyneb yn wyneb. Rhaid i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion dysgwyr yn unol â'u cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Wrth gynllunio i ddysgwyr ddychwelyd yn ddiogel, mae angen i ddarparwyr ystyried y gallai dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd ymdopi â'r canlynol:

- dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ar ôl cyfnod hir i ffwrdd. Dylai darparwyr weithio gyda dysgwyr a'u teuluoedd i roi trefniadau addas ar waith i'w paratoi ar gyfer y trawsnewid, a allai gynnwys dychwelyd yn raddol dros wythnosau cyntaf y tymor, ymweliadau â'r coleg, a straeon cymdeithasol
- newidiadau i'w hamgylchedd neu eu harferion dysgu, lle mae'r darparwr wedi gwneud addasiadau (er enghraifft, drwy addasu ystafelloedd dosbarth neu ddefnyddio llai o gelfi neu gyfarpar)
- cadw pellter cymdeithasol. Pan fo'n bosibl, dylid cefnogi ac annog dysgwyr i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gadw pellter a pheidio â chyffwrdd staff a dysgwyr eraill. Efallai na fydd hyn yn bosibl i rai dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth neu bob amser. Dylai colegau sicrhau bod dysgwyr ar y rhaglen Sgiliau Byw'n Annibynnol yn cael eu cadw yn eu grwpiau cyswllt ac osgoi cymysgu â charfannau eraill. Dylai staff sy'n darparu cymorth agos neu gyswllt i ddysgwyr gynnal asesiadau risg a chael cyfarpar diogelu personol os yw'r asesiad risg yn dangos bod eu hangen (cyfeiriwch at adran 6 isod). Dylai darparwyr ddarparu canllawiau a gwybodaeth fel posteri mewn fformatau hygyrch "hawdd eu darllen" a fformatau gweledol, a darparu'r rhain i ddysgwyr ac i rieni cyn iddyn nhw ddychwelyd er mwyn iddyn nhw wybod beth i'w ddisgwyl

- dilyn gofynion golchi dwylo ac hylendid anadlol a'r protocol "ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golchwch eich dwylo". Dylai darparwyr ystyried pa mor aml y dylai'r dysgwyr olchi eu dwylo, ac ymgorffori amser ar gyfer hyn mewn amserlenni, gyda goruchwyliaeth os bydd angen. Bydd dilyn trefniadau hylendid yn amlach ac yn fwy trylwyr yn helpu i liniaru'r risgiau o gyswllt rhwng y dysgwyr. Efallai y bydd angen gofal personol ar rai dysgwyr hefyd fel help i fynd i'r lle chwech; yn yr achosion hyn, dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol fel y nodir mewn rhan arall o'r canllawiau hyn
- rhoi gwybod am eu symptomau os ydynt yn teimlo'n sâl.

Caiff arbenigwyr, therapyddion, clinigwyr a staff cymorth eraill ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ymweld a darparu ymyriadau yn yr un modd ag arfer. Dylai'r ymwelwyr hyn gael **canllawiau** clir ar ofynion diogelwch y safle gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo ac hylendid anadlol.

Sgiliau Byw'n Annibynnol

Rydym yn disgwyl i ddysgwyr sy'n astudio rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol mewn colegau ddychwelyd at raglen lawn o ddysgu wyneb yn wyneb o fis Medi ymlaen. Y rheswm am hyn yw nad yw'r garfan hon yn gallu dysgu o bell heb gefnogaeth sylweddol gan deulu neu ofalwr, ac mae angen y strwythur a'r gefnogaeth y mae amgylchedd y coleg yn eu darparu er mwyn iddynt ffynnu a datblygu.

Rydym yn cydnabod bod hyn yn creu heriau ymarferol i golegau, o gofio bod gan rai dysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol gyflyrau iechyd isorweddol ac efallai

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

na fydd hi'n bosibl i'r grŵp hwn gadw pellter cymdeithasol yn llwyr. Efallai y bydd dysgwyr yn ei chael hi'n anodd deall a chydymffurfio â'r gofynion cadw pellter, ac efallai y bydd angen gofal personol ar rai fel cymorth i fynd i'r lle chwech. Rydym yn disgwyl i golegau wneud yr hyn y gallant ei wneud i liniaru ac i reoli'r risgiau, yn unol â'r canllawiau hyn. Gall hyn gynnwys cynyddu nifer yr ystafelloedd sydd ar gael ar gyfer Sgiliau Byw'n Annibynnol, ac addasu strwythur rhaglenni dysgu er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y dysgwyr (er enghraifft, drwy drefnu'r gweithgareddau sy'n golygu mwy o gyswllt corfforol yn nes ymlaen yn amserlen y rhaglen). Ni ddylai dysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol a oedd yn arfer hunanwarchod (gweler uchod) fynychu eu coleg am y tro, os nad ydynt yn abl i ddeall a chydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol.

Os yw dysgwyr yn abl i ddilyn rhaglen dysgu cyfunol, â chymorth priodol gan staff ac â chytundeb eu rhieni neu eu gofalwyr, gall colegau weithredu ar y sail hon. Efallai y bydd hyn yn bosibl, er enghraifft, i ddysgwyr rhaglenni Lefel 3 Mynediad. Byddem yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r rhaglen gael ei chyflwyno wyneb yn wyneb, ac i gynydd dysgwyr, eu hymrwymiad a'u lles gael eu monitro'n ofalus, er mwyn gallu addasu patrwm y ddarpariaeth os bydd angen.

Mesurau diogelu

Rhaid i ddarparwyr dysgu barhau i ddilyn y system o reolaethau a nodir isod.

Atal:

1. Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion pan fo'n bosibl.
2. Lleihau'r cyswllt gydag unigolion sy'n sâl drwy sicrhau bod y rheini sydd â **symptomau** COVID-19, neu rhywun yn eu haelwyd neu aelwyd estynedig sydd â'r symptomau, ddim yn dod i'w coleg neu eu canolfan hyfforddi.
3. Golchi dwylo'n drylwyr, yn amlach nag arfer.
4. Sicrhau hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'.
5. Parhau i **lanhau'n well**, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd, gan ddefnyddio cynnyrch safonol fel glanedyddion a channydd.
6. Pan fydd angen, gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ymateb i unrhyw haint:

7. Cydymffurfio â' **Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu** Llywodraeth Cymru a'r GIG ac o dan rheolau GDPR bydd angen hysbysu staff a rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid o ymrwymadau'r darparwyr dysgu o dan y strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu.
8. Rheolwch unrhyw achosion drwy ddilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol.

Atal

Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion pan fo'n bosibl.

Rydym yn gwybod bod cael llai o gyswllt a chymysgu rhwng pobl yn lleihau'r cyfleoedd i drosglwyddo COVID-19. Mae amrywiaeth y sector ôl-16, o ran yr amgylcheddau dysgu, y ddarpariaeth a'r dysgwyr dan sylw, yn golygu bod angen mabwysiadu dull pwrpasol sy'n seiliedig ar risg er mwyn ailgyflwyno addysgu wyneb yn wyneb; dyna pam mae ein canllawiau'n wahanol i'r canllawiau gweithredol ar gyfer y sector ysgolion, ond rydym wedi'u cysoni cymaint ag y bo modd i grwpiau tebyg o ddysgwyr. Un o nodau allweddol y canllawiau hyn yw sicrhau bod eglurder ynghylch sut gall darparwyr ailddechrau addysgu gwahanol grwpiau o ddysgwyr wyneb yn wyneb.

Rydym wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i amlinellu'r gofynion ar gyfer gwahanol fathau o ddysgu a grwpiau o ddysgwyr, fel y nodir isod. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r ffaith bod cyfraddau trosglwyddo COVID-19 yn uwch ymysg oedolion na phlant; yr angen i sicrhau cydraddoldeb rhwng mathau tebyg o ddysgu mewn gwahanol leoliadau; pa mor ymarferol yw cyfyngu ar gyswllt rhwng unigolion; a risgiau cymharol dysgwyr a staff sy'n symud rhwng gwahanol leoliadau. Yr egwyddor gyffredinol i'w defnyddio gyda phob grŵp yw lleihau faint o gyswllt a geir rhwng unigolion.

Y tu allan i'r ystafelloedd dosbarth a'r amgylcheddau addysgu eraill, dylai colegau a darparwyr eraill osgoi cael llawer o bobl yn ymgynnull gyda'i gilydd a rhaid iddynt gadw at mesurau ofynnol pellter cymdeithasol o ddau fetr. Mae hyn yn berthnasol i ardaloedd cyffredin fel ffreuturau, neuaddau chwaraeon a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

derbynfeydd. Dylai'r staff hefyd gadw pellter cymdeithasol wrth ryngweithio â'i gilydd, gan gynnwys mewn cyfarfodydd staff ac mewn amgylcheddau nad ydynt yn rhai addysgu. Os nad yw hyn yn bosibl, yna dylid rhoi **mesurau sy'n lliniaru** yn eu lle megis sgriniau, aildrefnu ardaloedd gwaith, gwasgaru amseroedd dechrau a gorffen a/neu cyfarpar diogelu personol safon y diwydiant. Y rheswm am hyn yw y gallai trosglwyddo'r haint rhwng y staff arwain at drosglwyddo ar raddfa eang drwy'r sefydliad, gan roi cydweithwyr mewn perygl.

Mae'n ofynnol bod staff yn ofalus iawn i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth y dysgwyr ac oddi wrth cydweithwyr ar bob adeg os ydynt yn symud o un grŵp cyswllt i un arall ai peidio.

Nid oes angen i unigolion sy'n perthyn i'r un aelwyd neu **aelwyd estynedig** gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd oni bai bod **cyfyngiadau cyfnod clo lleol** yn eu lle sy'n golygu bod hynny'n ofynnol, ac os felly dylai pob grŵp gadw atynt.

Dysgwyr amser llawn mewn colegau AB

Dylid neilltuo'r garfan hon o ddysgwyr i grwpiau cyswllt, gan gynnwys y rheini sy'n astudio rhaglenni Safon Uwch, galwedigaethol a Mynediad. Dyma sy'n cael ei wneud mewn ysgolion a dylai helpu colegau i sicrhau bod pobl ifanc mewn colegau yn cael profiad yr un fath â'r rheini mewn ysgolion.

Oherwydd bydd y dysgwyr yn astudio nifer o bynciau gwahanol, mae'n debygol y bydd y clystyrau COVID-19 mewn nifer o golegau yn fawr (os ceir achosion) – o bosibl maint y garfan gyfan sy'n astudio safon UG a safon U2 ar gampws. Serch hynny, bydd cyfyngu ar y cyswllt i garfannau Safon Uwch a lleihau'r cyswllt â dysgwyr a staff eraill yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19.

Ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, rhaid i golegau gydymffurfio ag unrhyw **ganllawiau gweithle** priodol ar gyfer y diwydiant dan sylw i sicrhau bod eu gweithleoedd yn COVID-ddiogel wrth gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth. Yn benodol, ar gyfer diwydiannau "cyswllt agos" fel trin gwallt neu ofal, lle mae'n rhaid i'r dysgwyr gael cyswllt corfforol â chleientiaid neu gyda'i gilydd er mwyn dysgu sgiliau a chynnal asesiadau, rhaid gwisgo cyfarpar diogelu personol safonol y diwydiant. Rhaid hyfforddi'r dysgwyr ar ddefnyddio cyfarpar diogelu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

personol yn ddiogel. Pan fo dysgwyr wedi'u lleoli mewn unrhyw weithle, ac os bydd tiwtoriaid yn ymweld â nhw, rhaid iddynt gadw at y rheolau ar **wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do**, fel sy'n briodol i'r **gweithle** hwnnw.

Cadw pellter cymdeithasol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyd o leihau'r posibilrwydd o drosglwyddo, ac felly hyd yn oed mewn grwpiau cyswllt, os oes modd cadw pellter o ddau fetr drwy addasu'r ystafell ddosbarth, dylid gwneud hynny.

Nid oes angen i golegau ddefnyddio dulliau gwahanol ar gyfer y grwpiau 16-19 oed a'r rheini dros 19 oed. Fodd bynnag, bydd dysgwyr hŷn sy'n ymuno â grwpiau sy'n cynnwys pobl ifanc 16-19 oed gan fwyaf, fel Safon Uwch, yn debygol o gadw pellter cymdeithasol a gallant ddefnyddio gorchuddion wyneb er mwyn helpu i ddiogelu eu hunain rhag dal yr haint, a dylid eu cefnogi i wneud hyn. Bydd y penderfyniad p'un a ddylid gwisgo gorchudd wyneb ai peidio a lle y dylid gwneud hynny yn benderfyniad lleol i'r coleg, yn dibynnu ar ei asesiad o'r risg ac yng nghyd-destun amgylchiadau lleol.

Dysgwyr rhan amser a dysgwyr cyflogedig ar raglenni sy'n gysylltiedig â'r coleg neu'r ganolfan, gan gynnwys prentisiaid

Bydd gan ddysgwyr yn y categori hwn ystod ehangach o gysylltiadau â chydweithwyr a chwsmeriaid, sydd y tu hwnt i reolaeth y darparwyr. Mae hyn yn golygu nad yw model y grŵp cyswllt yn ddigon i reoli'r risg o drosglwyddo'r haint.

Rhaid i ddarparwyr gynnal asesiadau risg ar lefel pwnc a gosod gofynion diogelwch priodol fel cyfarpar diogelu personol, gan gydnabod y risgiau uwch sy'n gysylltiedig â chyflwyno pynciau "cyswllt agos". Dylid parhau i gadw pellter cymdeithasol fel prif fesur rheoli pan fydd hynny'n bosibl yn ychwanegol i bob mesur rhesymol i **leihau'r risg o ddod mewn gysylltiad â COVID-19**. Mae dysgwyr sy'n rhyngweithio â chleientiaid neu mewn ffordd "ymarferol" gyda'i gilydd i ymarfer technegau, a dysgwyr sy'n treulio amser ar safleoedd cyflogwyr, yn wynebu mwy o berygl o ddal a drosglwyddo COVID-19 a dylid adlewyrchu hyn mewn asesiadau risg a chmau gweithredu dilynol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

EWCH I <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> I WELD Y FERSIWN DDIWEDDARAF.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Rhaid i golegau gydymffurfio ag unrhyw **ganllawiau gweithle** priodol ar gyfer y diwydiant dan sylw wrth gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth ynghyd â'r canllawiau mesurau rhesymol. Pan fo dysgwyr wedi'u lleoli mewn unrhyw weithle, rhaid iddynt gadw at y rheolau ar **wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do**, fel sy'n briodol i'r **gweithle** hwnnw.

Caiff aseswyr ymweld â phrentisiaid yn y gweithle, yn amodol ar y gofynion asesu risg a nodir yn y canllawiau hyn. Rhaid i aseswyr gadw pellter o ddau fetr oddi wrth bobl eraill yn ystod ymweliadau a gwisgo gorchudd wyneb os yw'n ofynnol i wneud hynny yn y gweithle y mae'r aseswr yn ymweld ag ef o dan y rheolau ar gyfer mannau cyhoeddus dan do.

Oedolion sy'n dysgu mewn lleoliadau yn y gymuned

Rhaid i oedolion sy'n dysgu gadw pellter cymdeithasol o ddau fetr. Pan na fydd hynny'n bosibl oherwydd prinder lle neu gyfyngiadau eraill, ni ddylid ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb ar hyn o bryd. Pan fo dysgwyr wedi eu lleoli mewn unrhyw leoliad yn y gymuned, rhaid iddynt gadw at y rheolau ar wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, fel sy'n briodol i'r gweithle hwnnw. Mewn coleg, bydd y penderfyniad p'un a ddylid gwisgo gorchudd wyneb ai peidio a lle y dylid gwneud hynny yn benderfyniad lleol i'r coleg, yn dibynnu ar ei asesiad o'r risg ac yng nghyd-destun amgylchiadau lleol.

Dysgwyr ar raglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol

Mae'n debyg y bydd dysgwyr yn y grŵp hwn yn rhyngweithio â llawer iawn o staff addysgu a staff cymorth, ac mae natur y garfan hon a'u dysgu yn golygu nad yw'n debyg y bydd modd cadw pellter. Dylai colegau sefydlu grwpiau cyswllt ar gyfer dysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol ac ni ddylent gymysgu â dysgwyr o garfanau eraill ar hyn o bryd. Dylai colegau ystyried cynnal asesiadau risg unigol ar gyfer dysgwyr i ganfod eu hanghenion a'u risgiau iechyd a diogelwch penodol, a dylid cysylltu â rhieni a gofalwyr i'w helpu i benderfynu a ddylai dysgwyr sydd ag anghenion iechyd cymhleth ddychwelyd i'r coleg ar hyn o bryd. Mae yna **canllawiau** ar wahân ar gael ar gyfer dysgwyr sydd yn agored i niwed neu sydd o dan anfantais, (sydd er ei fod ar gyfer grŵp oedran wahanol) yn darparu gwybodaeth ar rheoli cadw pellter cymdeithasol a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

PPE yng nghyd-destun pobl gyda anghenion ychwanegol.

Hyfforddeiaethau

Ar gyfer dysgwyr hyfforddeiaeth sy'n gyfan gwbl mewn canolfannau, gall darparwyr ddefnyddio model grŵp cyswllt fel y nodir yn (a) uchod.

Os tarfwyd ar leoliadau gwaith hyfforddeiaeth o ganlyniad i COVID-19 maent yn gallu , ynghyd â lleoliadau newydd, ailddechrau o 1 Awst ymlaen, yn amodol ar gynnal asesiadau risg ac iechyd a diogelwch cyfredol. Rhaid i'r darparwr fod yn sicr bod y gweithle'n ddiogel a bod y cyflogwr yn cydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau gweithlu sector priodol a mesurau rhesymol. Dylid ystyried polisi arferion gweithio diogel y cyflogwr fel rhan o'r archwiliadau iechyd a diogelwch. Dylai'r darparwr wneud yn siŵr bod y dysgwr yn deall yr arferion gweithio diogel o ran cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo ac hylendid anadlol, a'i fod yn gwybod i roi gwybod i'r darparwr os oes ganddo unrhyw bryderon am ddiogelwch yn y gweithle.

Mewn unrhyw amgylchiadau, ni ddylai dysgwr na chyflogwr deimlo dan unrhyw bwysau i ddechrau lleoliad gwaith os oes ganddo bryderon ynghylch iechyd, diogelwch neu les. Fel rhan o'r broses o adolygu cynnydd yn rheolaidd y bydd y darparwr yn ei chynnal gyda phob dysgwr, dylai'r darparwr gadarnhau bod y dysgwr yn deall yr arferion gweithio diogel, a phan fo'n bosibl dylai darparwr y lleoliad gwaith fod yn rhan o'r adolygiad.

Dylai hyfforddeion y mae eu rhaglen yn cyfuno amser yn y ganolfan a darpariaeth seiliedig ar waith, gadw pellter cymdeithasol o ddau fetr yn eu canolfan ac yn eu gweithle. Pan nad yw hyn yn bosibl, a chyn dechrau gweithgareddau yn y ganolfan, rhaid i ddarparwyr gynnal asesiad risg rhoi mesurau sy'n lliniaru yn eu lle yn unol â hynny. Ni ddylid trefnu lleoliadau gwaith lle na all y darparwr fodloni'r gofynion hyn.

Pan fo hyfforddeion wedi'u lleoli mewn unrhyw weithle sydd wedi'u cynnwys o fewn y rheolau sy'n ymwneud â **gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do**, rhaid iddynt gadw at y rheolau hyn oni bai eu bod wedi'u heithrio. Rhaid i diwtoriaid ac aseswyr sy'n ymweld â nhw hefyd gadw at y rheolau gorchuddion wyneb pan fônt ar safle'r **gweithle** a phan fo hynny'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

EWCH I <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> I WELD Y FERSIWN DDIWEDDARAF.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

berthnasol.

Myfyrwyr addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach

Dylai sefydliadau addysg bellach ddilyn yr un drefn yn achos eu myfyrwyr addysg uwch ag ar gyfer y grwpiau eraill o ddysgwyr a nodir yn y canllawiau hyn, hy grwpiau cyswllt yn achos dysgwyr llawn-amser a chadw pellter cymdeithasol yn achos dysgwyr rhan-amser.

Ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr, gellir darparu gweithgareddau cyfoethogi ac allgyrsiol pan fydd hynny'n bosibl gan ddilyn y canllawiau ar leihau cyswllt a nodir uchod. Ar gyfer gweithgareddau fel academiâu chwaraeon, dylid darllen a dilyn canllawiau'r corff llywodraethu perthnasol a **chanllawiau** Chwaraeon Cymru. Mae hefyd canllawiau wedi ei ddarparu gan Llywodraeth Cymru ar dychwelyd yn raddol i chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Pan fo darparwyr yn cynnal digwyddiadau dan do, rhaid iddynt gadw at **ganllawiau** Llywodraeth Cymru ar adael eich cartref a gweld pobl eraill. Rhaid iddynt hefyd gadw at y rheolau ar wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do.

Lleihau cyswllt gyda unigolion sydd yn sâl trwy sicrhau bod rheini sydd gyda symptomau COVID-19, neu bod rhywun yn ei haelwyd neu aelwyd estynedig gyda symptomau, ddim yn mynychu eu coleg neu canolfan dysgu.

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, ni ddylai dysgwyr na staff ddod i'r coleg, canolfan hyfforddi neu gweithle os ydynt:

- yn teimlo'n anhwylyd ac, os oes ganddynt unrhyw un o'r **symptomau** COVID-19. Os yw hyn yn wir mae'n rhaid iddynt **ynysu** ar unwaith a bwcio **prawf** COVID-19
- os ydynt wedi cael canlyniad positif am COVID-19
- yn byw gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

canlyniad positif am COVID-19 (os felly dylid bod yn ymwybodol o'r angen i ynysu ar unwaith)

- Wedi derbyn gofyniad gan Gwasanaeth **Profi, Olrhain, Diogelu** GIG Cymru i ynysu.

Dylai darparwyr cael polisi a gweithdrefnau uwchgyfeirio clir ar waith os bydd dysgwyr neu staff yn dechrau dangos symptomau o COVID-19 pan fyddant yn y coleg neu canolfan. Mae angen i'r staff, y dysgwyr (pan fyddant yn gallu) a'r rhieni/gofalwyr ddeall y rhain yn llawn.

Os bydd dysgwyr neu staff sydd â symptomau wedi cyffwrdd ag unrhyw arwynebau, dylid glanhau'r arwynebau hynny'n ofalus ac yn drylwyr yn unol â'r **canllawiau** hyn.

Dylai unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 aros gartref ac hunanynysu wrth drefnu i gael prawf.. Mae **canllawiau hunanynysu** Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau i'w cymryd a'r cyfnodau o ynysu sy'n ofynnol ar gyfer y rhai sydd ag achosion posibl neu wedi'u cadarnhau o COVID-19, ac aelodau o'u haelwyd/aelwyd estynedig, a dylid eu darllen yn ofalus a chadw atynt.

Golchi dwylo'n drylwyr yn amlach nag arfer

Mae golchi dwylo'n drylwyr ac yn aml gyda dŵr sy'n rhedeg a sebon neu hylif diheintio dwylo yn ffordd effeithiol o leihau'r risg o ddal COVID-19. Dylai darparwyr, trwy negeseuon, arwyddion ac hysbysebion, atgofa dysgwyr o'r angen i olchi eu dwylo'n rheolaidd, gan gynnwys pan fyddant yn cyrraedd, pan fyddant yn dychwelyd ar ôl egwyl, pan fyddant yn newid ystafelloedd a chyn ac ar ôl bwyta. Mae mwy o wybodaeth ar gweithdrefn golchi dwylo yn gywir yn y canllawiau **cadw pellter cymdeithasol**. Bydd angen golchi dwylo'n rheolaidd ac yn drylwyr am gryn amser eto. Mae pwyntiau i'w hystyried a'u gweithredu yn cynnwys:

- oes digon o gyfleusterau golchi dwylo neu ddiheintio dwylo ar gael ar y safle er mwyn i'r holl ddysgwyr a staff allu golchi eu dwylo'n rheolaidd
- goruchwyllo dysgwyr pan fyddant yn defnyddio hylif diheintio dwylo o ystyried y risgiau sydd ynghlwm wrth ei lyncu. Dylid parhau i helpu dysgwyr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

EWCH I <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

sydd ag anghenion cymhleth i olchi eu dwylo'n iawn

- ymgorffori'r arferion hyn yn niwylliant sefydliadol, gan osod disgwyliadau o ran ymddygiad i'w cefnogi, a helpu dysgwyr iau a'r rheini sydd ag anghenion cymhleth i ddeall bod angen eu dilyn.

Sicrhau hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golchi eich dwylo'

Mae'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golchwch eich dwylo' yn dal yn bwysig iawn, felly mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod ganddynt ddigon o hancesi papur a biniau sbwriel ar gael yn yr ysgol i gefnogi'r dysgwyr a'r staff i ddilyn y drefn hon. Yn yr un modd â golchi dwylo, rhaid i ddarparwyr sicrhau bod dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth yn cael cymorth i wneud hyn yn iawn.

Efallai y bydd hi'n anodd i rai dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth gadw hylendid anadlol da i'r un graddau. Dylid ystyried hyn mewn asesiadau risg er mwyn cefnogi'r dysgwyr hyn a'r staff sy'n gweithio gyda nhw, ac nid yw hyn, ar ben ei hun, yn rheswm dros beidio â darparu addysg wyneb yn wyneb i'r dysgwyr hyn.

Glanhau'n amlach, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd, gan ddefnyddio cynnyrch safonol fel glanedyddion a channydd

Dylai darparwyr dilyn y **canllawiau glanhau** diweddaraf ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd. Mae pwyntiau i'w hystyried a'u gweithredu yn cynnwys:

- paratoi amserlen glanhau sy'n sicrhau bod y glanhau'n cael ei wella'n gyffredinol a'i fod yn cynnwys:
 - glanhau ystafelloedd/ardaloedd a rennir yn amlach ar ôl i wahanol grwpiau eu defnyddio
 - glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd yn amlach nag arfer
 - Ystyried darparu deunydd glanhau ac annog dysgwyr i lanhau eu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

desgiau cyn ac ar ôl ei ddefnyddio

- pan fo'n bosibl, darparu toiledau ar wahân ar gyfer gwahanol grwpiau cyswllt. Pan na fydd hyn yn bosibl, bydd defnyddio hylif diheintio dwylo cyn mynd i mewn i'r toiled a sicrhau bod y toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd yn helpu. Rhaid annog y dysgwyr i olchi eu dwylo'n drylwyr ar ôl defnyddio'r toiled.

Pan fydd angen, gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol

Mae hi'n bwysig cofio bod tystiolaeth gref sy'n dangos mai cadw pellter cymdeithasol/corfforol, hylendid dwylo a hylendid anadlol (dal peswch neu disian mewn hances bapur a chuddio'r geg a'r trwyn gyda phenelin neu lawes ac yn golchi eich dwylo) yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal lledaeniad y coronafeirws. Felly nid oes angen defnyddio cyfarpar diogelu personol wrth gynnal gweithgareddau addysgol arferol mewn colegau neu ganolfannau. Mae rhestr o eithriadau isod.

Ers 14 Medi 2020, mae'n orfodol gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do drwy Gymru. **Mae canllawiau ar gael yma** ac maent yn ymdrin ag eithriadau.

Amheuaeth o COVID-19

- Dylid gwisgo menig, ffedogau a masgiau llawfeddygol gwrth-hylif os bydd rhywun yn mynd yn anhwylus gyda symptomau COVID-19 ac y bydd angen gofal personol uniongyrchol ar y plentyn neu'r person ifanc.
- Dylid hefyd gwisgo cyfarpar diogelu'r llygaid os bydd asesiad risg yn pennu bod risg y bydd rhywbeth yn sblasio i'r llygaid er enghraifft drwy beswch, poeri neu daflu i fyny.
- Dylid gwisgo menig a ffedogau wrth **lanhau'r** ardaloedd lle mae rhywun yr amheuir bod COVID-19 arno wedi bod.

Gofal personol

- Dylid parhau i wisgo menig a ffedogau wrth ddarparu gofal personol i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddysgwr. Mae hyn yn gallu cynnwys gofal ymarferol personol fel ymolchi, defnyddio'r toiled neu gymorth cyntaf a rhai gweithdrefnau clinigol fel cymorth bwydo.

- Dylid hefyd gwisgo masgiau llawfeddygol gwrth-hylif a chyfarpar diogelu'r llygaid os bydd asesiad risg yn pennu bod risg y bydd rhywbeth yn sblasio i'r llygaid er enghraifft drwy beswch, poeri neu daflu i fyny.
- Dylid defnyddio menig, gynau gwrth-hylif, masgiau FFP3 a chyfarpar diogelu'r llygaid wrth ymgymryd â gweithdrefnau gofal sy'n cynhyrchu aerosolau fel sugno.
- Dylid defnyddio menig a ffedogau wrth lanhau cyfarpar neu arwynebau y mae'n bosibl eu bod wedi cael eu halogi gan hylifau o'r corff fel poer neu secretiadau anadlol

Dysgu galwedigaethol

Fel y nodir yn adran (1) uchod, dylai darparwyr gynnal asesiadau risg ar gyfer darpariaeth alwedigaethol a darpariaeth yn seiliedig ar waith a dylent ddefnyddio PPE o safon y diwydiant priodol i helpu i leihau'r risg o haint. Bydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer diwydiannau "cyswllt agos" yn benodol, ac ar gyfer dysgwyr cyflogedig fel prentisiaid. Rhaid i ddysgwyr a staff gael hyfforddiant ar ddefnyddio PPE yn ddiogel fel bo'n briodol ar gyfer eu diwydiant. Pan fo dysgwyr wedi'u lleoli mewn unrhyw weithle, ac os oes aseswyr yn ymweld â nhw, rhaid iddynt gadw at y rheolau ar wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus o dan do, fel sy'n briodol i'r gweithle hwnnw.

Dylai staff mewn darparwyr ddefnyddio cyfarpar diogelu personol ar sail asesiad clir o'r risg, gan ystyried anghenion y dysgwr unigol. Ar ôl cynnal unrhyw asesiad risg, os daethpwyd i'r casgliad bod angen cyfarpar diogelu personol, dylai fod ar gael yn hawdd. Mae'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** wedi darparu rhagor o wybodaeth. Dylai'r holl staff ddeall sut mae gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol yn y drefn iawn, gwaredu'r gwastraff yn ddiogel a defnyddio camau hylendid dwylo cywir i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint ymlaen. Ym mhob sefyllfa, dylid bob amser golchi dwylo cyn gwisgo cyfarpar diogelu personol ac ar ôl ei dynnu i ffwrdd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ymateb i unrhyw haint

Ymgysylltu â'r cynllun Profi, Olrhain, Diogelu

Cafodd y **strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu** a gyhoeddwyd ar 13 Mai ei rhoi ar waith ar draws Cymru ar 1 Mehefin.

Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio drwy:

- brofi pobl sydd â symptomau'r coronafeirws, gofyn iddynt ynysu oddi wrth deulu, ffrindiau ac o'u cymuned, neu gofyn eu bod nhw, eu haelwyd a'u haelwyd estynedig i ynysu tra byddent yn cymryd prawf ac aros am y canlyniad. Gall pobl gyda symptomau wneud cais am brawf eu hunain neu gall aelod o'u haelwyd sydd â symptomau wneud cais am brawf. Mae hyn yn cynnwys oedolion a phlant gan gynnwys plant dan 5 oed. Mae gwybodaeth a **chanllawiau** i staff ar sut mae gwneud cais am brawf ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**
- olrhain y bobl sydd wedi cael cyswllt agos â'r bobl sydd wedi cael canlyniad positif am y feirws, gan fynnu eu bod yn cymryd rhagofalon drwy **hunanyynysu**. Mae rhagor o wybodaeth ar gael **ar wefan Llywodraeth Cymru** am olrhain cysylltiadau a sut bydd yn gweithio
- os nad yw'r symptomau o ganlyniad i'r coronafeirws, sicrhau bod unigolion a'u cysylltiadau'n gallu dychwelyd i'w trefn arferol cyn gynted ag sy'n bosibl
- darparu cyngor a **chanllawiau**, yn enwedig os yw'r sawl sydd â symptomau neu eu cysylltiadau yn y 'grŵp gwarchod' neu'r grŵp **risg uwch**.

Drwy leihau'r trosglwyddo yn ein cymunedau, a drwy fynd ati'n gyflym i adnabod ac i ynysu'r rheini sydd mewn perygl o ddatblygu COVID-19 ar ôl cael cyswllt agos gydag unigolyn positif (ee cysylltiad hysbys neu aelod o'r teulu) byddwn yn helpu i agor ysgolion, colegau a lleoliadau blynyddoedd cynnar yn ehangach.

Dylai darparwyr atgyfnerthu'r negeseuon hyn ac yn benodol dylent atgoffa pawb sy'n dangos unrhyw un o symptomau'r feirws y dylent hunanyynysu ar unwaith ac archebu prawf. Dylai'r rheini sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau hefyd hunanyynysu.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Os ceir canlyniad positif, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r sawl a gafodd y prawf i helpu i ganfod cysylltiadau posibl. Bydd ail swyddog olrhain cysylltiadau wedyn yn cysylltu â'r cysylltiadau hynny ac yn eu cynghori i hunanynysu. Dim ond os ydynt yn datblygu symptomau y bydd angen i'r bobl hyn wneud y prawf.

Pan fydd staff wedi dilyn y rheolau cadw pellter cymdeithasol/corfforol ac wedi dilyn y mesurau golchi dwylo ac hylendid anadlol yn ystod eu gwaith a, phan roedd angen, wedi defnyddio cyfarpar diogelu personol neu wedi gweithio y tu ôl i sgrin neu bartisiwn priodol, mae'n annhebygol y byddent yn cael eu hystyried fel rhan o ymarfer olrhain cysylltiadau at y dibenion hyn. Mae'n bwysig, serch hynny, i gofio hyd yn oed pan fo gan darparwr pob rheoliad priodol yn eu lle, bydd gweithwyr ddim o rheidwydd yn cofio bob amser pan maent wedi methu dilyn y rheoliadau yma.

Nid yw prawf positif yn golygu bod angen cau'r safle. Mae'r broses o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd' a phan fydd darparwyr yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm dros boeni. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar olrhain cysylltiadau a phrofi mewn lleoliadau addysgol ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#) a dylid ei darllen ar y cyd â'r adran hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [canllawiau](#) ar gadw cofnodion am staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr, er mwyn helpu i olrhain achosion o COVID-19 a'u rheoli. Mae hyn yn berthnasol i sectorau penodol gan gynnwys lletygarwch, twristiaeth a hamdden, gwasanaethau cyswllt agos a chyfleusterau sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol. Nid oes yn rhaid i golegau a darparwyr hyfforddiant gadw'r cofnodion hyn, ond **mae'r** canllawiau'n berthnasol i rai gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan golegau ac sy'n cael eu defnyddio gan y cyhoedd, fel salonau trin gwallt, salonau harddwch, cyfleusterau hamdden a bwytai, a dylai'r rhain ddilyn y canllawiau i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19.

Ymatal unrhyw achos drwy ddilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol

Gan adeiladu ar Y Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru (2020) mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

darparu **cyngor penodol** ynghylch ymchwilio i glystyrau a brigiadau o achosion o COVID-19 a'u rheoli mewn lleoliadau addysgol. Mae'r cyngor yn amlinellu pa gamau y dylid eu cymryd i ddiogelu unigolion a chymunedau lle ceir brigiadau, yn ogystal â lleihau'r lledaeniad i gymunedau eraill.

Gweithdrefnau Darparwyr

Assesiadau Risg

Rhaid i ddarparwyr cymryd pob **mesur rhesymol** i ddiogelu staff, dysgwyr ac eraill rhag COVID-19 mewn ysgolion a lleoliadau.

Fel rhan o'r gwaith o gynllunio i ddychwelyd yn llawn yn ystod tymor yr hydref, mae'n ofyniad cyfreithiol i ddarparwyr ailedrych ar eu hasesiadau risg a'u diweddaru drwy adeiladu ar yr hyn sydd wedi cael ei ddysgu hyd yma a'r arferion maent eisoes wedi'u datblygu. Bydd hyn yn eu galluogi i ystyried y risgiau ychwanegol a'r mesurau rheoli i'w rhoi ar waith ar gyfer darpariaeth yn nhymor yr hydref.

Efallai y bydd campysau, canolfannau ac ardaloedd arbenigol unigol angen eu hasesiadau risg eu hunain, neu ddiweddariad sy'n canolbwyntio ar COVID-19 i'w hasesiadau risg cyfredol.

Dylid asesiadau risg cael eu cyhoeddi ar wefan y darparwr, mewnrwyd staff neu yriant a rennir.

Am ganllawiau ar gynnal asesiadau risg, gweler gwefan yr **Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch**.

Mae darparwyr dysgu yn destun **Rheoliadau Rheoli lechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999**.

Yn achos dysgwyr, yn cynnwys prentisiaid, sy'n dysgu yn y gweithle, y cyflogwr sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr amgylchedd dysgu; ond mae'n rhaid i'r darparwr dysgu fodloni ei hun ynghylch diogelwch ei staff sy'n darparu'r dysgu yn y gweithle. Yn achos dysgwyr cyflogedig yn cynnwys prentisiaid, cadarnhau gyda

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

chyflogwyr pa drefniadau hylendid a chadw pellter cymdeithasol priodol sydd ar waith a'u bod yn cyd-fynd â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020; Lle mae darparwyr yn trefni lleoliadau gwaith ar rhan eu dygwyr mae angen iddynt cynnal asesiad risg a sicrhau eu hun bod y gweithle yn COVID- ddiogel.

Dylai darparwyr weithio gyda staff, rhieni/gofalwyr dysgwyr a chyflogwyr er mwyn bod yn glir ynghylch sut bydd y trefniadau diwygiedig yn gweithio'n ymarferol a chael trefniadau gweithredol ar waith i fonitro bod y rheolaethau:

- yn effeithiol
- yn gweithio yn ôl y bwriad
- yn cael eu diwedddaru'n briodol gan ystyried unrhyw faterion sy'n codi a newidiadau mewn cyngor iechyd y cyhoedd.

Dysgu yn y gweithle

Mae **canllawiau diwedddaraf Llywodraeth Cymru ar gadw'n ddiogel yn y gwaith** ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar gyfer rhai diwydiannau penodol, ac maent yn cael eu diwedddaru ac mae rhagor yn cael eu hychwanegu atynt wrth i ragor o sectorau ailagor.

Dylai aseswyr gweithle sy'n ymweld â chyflogwyr ymgyswrtu ag unrhyw ganllawiau ar gyfer eu sectorau, i sicrhau eu bod yn deall beth ddylai cyflogwyr fod yn ei wneud i gadw eu staff yn ddiogel.

Os yw dysgwyr yn mynegi pryderon am ei ddiogelwch yn y gweithle, neu os yw aseswr yn sylwi ar arferion anniogel (fel hylendid gwael, neu fethiant i gadw pellter cymdeithasol mewn mannau cyfyngedig), dylai'r darparwr fynegi'r pryderon hyn wrth y cyflogwr. Ni ddylid gofyn i aseswyr a staff arall sy'n gysylltiedig â darpariaeth y gweithle ymweld â gweithleoedd os nad yw'r darparwr yn sicr eu bod yn ddiogel.

Gall dysgwyr neu aseswyr roi gwybod am faterion sy'n ymwneud â diogelu pobl rhag COVID-19 yn y gweithle i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- ar 0300 790 6787 (llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8:30am i 8pm)
- ar-lein gan ddefnyddio eu [ffurflen ymholiadau gweithio'n ddiogel](#)

Awyru

Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod digon o awyr iach yn eu dosbarthiadau. Lle mae yna systemau awyru mecanyddol canolog neu leol, dylid eu haddasu i ganiatáu cymaint â phosibl o awyr iach. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid gweithredu'r systemau yn ôl eu harfer. Dylid dechrau awyru'r dosbarthiadau cyn cychwyn y diwrnod ysgol a dylid parhau ar ôl i'r gwersi ddod i ben. Os oes gan unedau awyru ffiltrau, dylid bod yn fwy gofalus nag arfer wrth eu newid. Dylid gwirio neu addasu systemau awyru i sicrhau nad ydynt yn addasu'r lefelau awyru yn awtomatig yn ôl faint o bobl sydd yn yr adeilad. Gall ysgolion a lleoliadau ymgynghori â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar systemau awyru.

Lle mae ysgolion yn dibynnu ar awyr iach naturiol, gan gynnwys agor ffenestri a drysau, dylid parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, wrth sicrhau bod cymaint o awyr iach â phosibl yn dod i mewn i'r dosbarth, cydnabyddir y bydd angen cydbwysu hynny â chynnal tymheredd rhesymol a'r risgiau sydd ynghlwm wrth agor ffenestri. Dylid adolygu'r Asesiad Risg o ran Diogelwch Tân bob amser cyn cadw unrhyw ddrysau mewnol ar agor.

Nid oes rhaid agor ffenestri a drysau yn llawn er mwyn cael y lefelau gofynnol o awyr iach. Gellir eu agor yn rhannol. Efallai y bydd angen cynghori staff ynghylch sut i awyru lleoliad yn y ffordd fwyaf priodol. Gellir awyru ystafelloedd dosbarth yn llawnach rhwng dosbarthiadau neu cyn iddynt gael eu defnyddio nesaf.

Er bod gwella'r cyflenwad awyr iach yn allweddol, dylai ysgolion barhau i sicrhau bod mesurau ehangach cadw pellter cymdeithasol, hylendid personol a glanhau ychwanegol yn cael eu gweithredu a'u cynnal.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Awyru yn ystod y gaeaf

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at bwysigrwydd awyru da ac, yn fwy diweddar gwisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cyhoeddus dan do, er mwyn cadw lefel halogiad yr awyr mor isel â phosibl a lleihau'r risg o drosglwyddo SARS-CoV-2, y feirws sy'n achosi COVID-19.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y feirws yn cael ei ledaenu'n bennaf drwy ddefnynnau mwy ac aerosolau llai, a ryddheir wrth inni beswch, tisian, chwerthin, siarad neu anadlu. Mae'n fwy cyffredin i'r feirws gael ei ledaenu dan do, felly, na'r tu allan, gan ei bod yn anoddach i'r defnynnau a'r aerosolau gael eu gwasgaru.

Wrth i'r gaeaf agosáu, mae awyru yn dal i fod yn strategaeth bwysig er mwyn lleihau ein risg o ddod i gysylltiad â'r feirws, a bydd yn bwysig sicrhau llif awyr mor effeithiol â phosibl drwy fentiau, ffenestri a drysau, gan gadw'r amgylchedd gwaith neu addysg yn gyffyrddus ar yr un pryd. Bydd agor ffenestri yn y bore cyn i bobl gyrraedd y gwaith neu cyn i'r dosbarthiadau ddechrau am o leiaf bum munud, a fin nos ar ôl i bawb fynd adref yn caniatáu i'r awyr gylchredeg. Os yw'n bosibl, agorwch bob ffenest am rai munudau yn ystod y diwrnod gwaith/coleg er mwyn trawsawyru; hynny yw, i'r hen awyr lifo allan ac i'r awyr iach ddod i mewn.

Aerdymheru

Nid oes angen addasu'r rhan fwyaf o systemau aerdymheru, ond lle bydd systemau yn gwasanaethu mwy nag un adeilad, neu os byddwch yn ansicr, dylid gofyn i'ch peirianwyr neu gynghorwyr gwresogi, awyru ac aerdymheru priodol am gyngor.

O ran systemau aerdymheru canolog cwbl fecanyddol, sy'n cyflenwi ac yn echdynnu aer o fwy nag un ystafell, yr ymarfer gorau yw osgoi ailgylchu aer. Dylid gallu diffodd ailgylchu ar bob system aerdymheru fecanyddol ganolog, a gallu cael cyflenwad aer ffres yn unig.

O ran systemau mecanyddol mewn ystafelloedd dosbarth unigol, lle mae'r moddau ailgylchu aer yn galluogi cyfraddau uwch o aer ffres i gael eu cyflenwi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

mewn ardal, er enghraifft drwy atal drafftiau oer, dylid caniatáu'r defnydd o'r dyfeisiau hyn.

Yn amlwg byddai ffaniau'n ailgylchu'r aer sydd yno'n barod, felly ni fyddent yn cael eu hargymell.

Gwiriwch a oes angen i chi wasanaethu neu addasu systemau awyru, er enghraifft, er mwyn sicrhau nad yw'r lefelau awyru yn gostwng yn awtomatig gan fod nifer y bobl sy'n bresennol yn is na'r arfer.

Mae cyngor hefyd ar gael i wasanaethau adeiladu, yn benodol ar awyru adeiladau pan fyddant yn cael eu defnyddio ac wrth ddychwelyd i adeiladau sydd wedi bod ar gau, gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Sefydliad Siartredig Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu, Cymdeithas y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu, a REHVA.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at bwysigrwydd awyru da ac, yn fwy diweddar, gwisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, er mwyn cadw'r crynodiad o halogion mor isel â phosibl a lleihau'r risg o drosglwyddo SARS-CoV-2, sef y feirws sy'n achosi Covid-19.

Dengys tystiolaeth fod y feirws yn cael ei ledaenu'n bennaf drwy ddefnyddiau mawr ac aerosol bach o'r geg a'r trwyn pan fyddwn yn peswch, tishan, chwerthin, siarad neu anadlu. Felly, mae'r feirws yn fwy tebygol o gael ei drosglwyddo dan do nac yn yr awyr agored, oherwydd mwy o gysylltiad ag ef ac nad yw'n defnyddio ac aerosolau'n diflannu mor gyflym.

Wrth i'r gaeaf nesáu, mae'r angen am awyru yn parhau i fod yn strategaeth bwysig ar gyfer lleihau ein risg o ddod i gysylltiad â'r feirws a bydd yn bwysig sicrhau'r llif aer mwyaf posibl drwy ddefnyddio fentiau, ffenestri a drysau gan gynnal amgylchedd gweithio neu addysgol cyfforddus. Bydd agor ffenestri yn y bore am o leiaf bum munud cyn i bobl ddod i'r gwaith neu cyn i ddosbarthiadau ddechrau a gyda'r nos pan fydd pawb wedi mynd adref yn caniatáu i aer gylchredeg. Os yn bosibl, agorwch bob ffenestr am ychydig funudau yn ystod y dydd i ganiatáu ar gyfer croes awyru – hynny yw i hen aer lifo allan ac awyr iach ddod i mewn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cludiant

Rydym wedi cyhoeddi **canllawiau ar wahân i sefydliadau addysg bellach ar gynllunio a rheoli cludiant i'r coleg i ddysgwyr**.

Bydd y cyngor a'r **canllawiau diweddaraf mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus** ar gael yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae **canllawiau ar ddefnyddio gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus** ar gael.

Mae'r **canllawiau ar y gofyniad gorfodol i wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do** ar gael.

Rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr dan 19 oed yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys y rheini y mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cludiant ar eu cyfer a'r rheini y gallai fod arnynt eisiau darparu cludiant yn ôl disgrisiwn iddynt wrth asesu anghenion teithio. Rhaid i awdurdod hefyd ystyried:

- anghenion dysgwyr anabl a dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu
- unrhyw anghenion penodol sydd gan ddysgwyr sy'n 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol neu a oedd yn arfer 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol
- oed y dysgwr
- natur y llwybr mae disgwyl i'r dysgwr ei gymryd rhwng y cartref a'r lleoliad sy'n darparu'r addysg neu'r hyfforddiant. Wrth asesu anghenion teithio dysgwyr, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y ffaith na ddylai'r trefniadau teithio a wneir o ganlyniad i'r asesiad achosi lefelau afresymol o straen, cymryd cyfnod afresymol na bod yn anniogel.

Cysylltu

Dylid anfon unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y canllawiau hyn i **FEAD.COVID-19@llyw.cymru**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Trefniadau ar gyfer arholiadau'r gaeaf

Mae'r atodiad hwn yn nodi trefniadau iechyd cyhoeddus ychwanegol y dylai ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill eu gweithredu wrth gyflwyno arholiadau yng nghyfres arholiadau gaeaf 2020 er mwyn eu galluogi i symud ymlaen mewn ffordd sy'n ddiogel o ran y coronafeirws (COVID-19).

Mae'r canllawiau isod yn atodol ac yn egluro'r canllawiau gweithredol a ddarparwyd eisoes i **ysgolion** a **darparwyr ôl-16**. Mae'n berthnasol yn benodol i arholiadau mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021 (cyfres gaeaf 2020).

Mae'r atodiad ar gyfer:

- uwch arweinwyr ysgolion a cholegau
- penaethiaid mathau eraill o ganolfan arholiadau sy'n cynnig arholiadau TGAU, Safon Uwch/UG neu gymhwyster galwedigaethol a thechnegol (VQ) yn hydref 2020
- swyddogion arholiadau a staff eraill sy'n ymwneud â chyflwyno arholiadau
- awdurdodau lleol.

Mae'n berthnasol i bob math o ganolfan arholiadau, gan gynnwys:

- ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth
- sefydliadau addysg bellach
- darparwyr hyfforddiant annibynnol
- ysgolion annibynnol
- darparwyr dysgu oedolion a chymunedol
- canolfannau arholiadau preifat.

Y cynlluniau ar gyfer yr arholiadau

Pryd y cynhelir yr arholiadau

Mae amserlen CBAC ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, Mathemateg a Rhifedd Mathemateg o 2 i 11 Tachwedd, ac mae amserlen mis Ionawr o 5 i 14

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

lonawr. Mae'n bosibl y bydd rhai ardaloedd yn profi cyfnodau clo neu gyfyngiadau lleol i wahanol raddau yn ystod cyfnod yr arholiadau, gan gynnwys cyfnod clo llym. Ein disgwyliad ni yw y bydd y gyfres arholiadau'n cael ei chynnal lle mae ysgolion a cholegau ar agor, hyd yn oed os yw hyn ar gyfer grwpiau llai o fyfyrwyr.

Rydym hefyd yn disgwyl i ysgolion a cholegau mewn ardaloedd sydd o dan gyfyngiadau lleol gynnal arholiadau. Pan fo ymgeiswyr yn teithio i ardal neu o fewn ardal sydd o dan gyfyngiadau lleol i sefyll arholiadau, dylent gyfeirio at y [canllawiau ar gyfyngiadau lleol](#).

Dylai ymgeiswyr ddisgwyl gallu teithio at ddibenion sefyll arholiadau, gan gynnwys teithio o fewn, ac i mewn ac allan o ardaloedd sy'n destun cloeon lleol, ac eithrio os ydynt wedi profi'n bositif, bod ganddynt symptomau neu os ydynt wedi'u cadarnhau fel cyswllt agos i rywun sydd wedi profi'n bositif.

Ymgeiswyr sy'n colli arholiadau yng nghyfres y gaeaf

Cyn belled â bod yr ymgeiswyr wedi cwblhau'r asesiadau gofynnol angenrheidiol ar gyfer eu pwnc, gall eu hysgol neu goleg wneud cais am 'ystyriaeth arbennig'. Mae'r asesiadau gofynnol angenrheidiol sydd eu hangen er mwyn cael 'ystyriaeth arbennig' yn amrywio yn ôl cymhwyster. Yn achos TGAU, Safon UG a Safon Uwch, os yw'r ymgeiswyr wedi cwblhau o leiaf 25% o'r asesiadau yn y pwnc yng nghyfres yr hydref, byddant yn cael gradd (noder bod yn rhaid cwblhau 25% o'r asesiad ar gyfer Safon Uwch gydag o leiaf un uned ar lefel A2).

Mae'n bosibl na fydd rhai ymgeiswyr, yn anffodus, yn gallu mynychu rhai neu unrhyw un o'u harholiadau. Bydd yr ymgeiswyr hynny sy'n cwblhau llai na'r asesiadau gofynnol angenrheidiol ac felly na ellir dyfarnu gradd iddynt yng nghyfres y gaeaf, yn gallu dewis cael gradd yng nghyfres yr haf.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Paratoi ar gyfer cyfres arholiadau'r gaeaf a'u cynnal

Ymgysylltu â'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn deall y strategaeth **Profi, Olrhain, Diogelu** a'ch bod wedi darllen y **canllawiau ar gyfer lleoliadau addysgol** (gweler **'Ymgysylltu â'r Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu' o dan Mesurau Diogelu ar dudalen 7 yn y canllawiau gweithredol**).

Bydd angen i'ch ysgol neu goleg gasglu a chadw gwybodaeth gyswllt ar gyfer ymgeiswyr a goruchwylwyr er mwyn gallu ei rhannu â Phrofi, Olrhain, Diogelu os bydd angen. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer unrhyw ymwelwyr allanol, gan gynnwys unrhyw staff nad ydynt yn rhan o'r ysgol sy'n cynorthwyo gydag arholiadau, ac ymgeiswyr nad ydynt wedi'u cofrestru yn yr ysgol neu'r coleg. Bydd gan bob arholiad gynllun eistedd y gellir ychwanegu enwau'r goruchwylwyr ato a'u croesgyfeirio at y manylion cyswllt sydd gennych ar gyfer ymgeiswyr a goruchwylwyr.

Y trefniadau cyrraedd a gadael ar gyfer ymgeiswyr

Pan fydd ymgeiswyr yn cyrraedd cyn amser dechrau'r arholiadau, bydd angen i chi sicrhau bod hyn yn cael ei reoli ochr yn ochr â threfniadau cyrraedd y myfyrwyr eraill yn yr ysgol neu'r coleg, er mwyn cadw'r ymgeiswyr ar wahân i fyfyrwyr eraill.

Dylech hefyd sicrhau bod mesurau ymbellhau cymdeithasol yn cael eu dilyn ar gyfer unrhyw ymgeiswyr sy'n cyrraedd yn hwyr ar gyfer yr arholiad.

Bydd angen i chi sicrhau bod cynllun yn ei le i reoli'r ymgeiswyr sy'n dod i mewn ac yn gadael yr ystafell arholi a'r safle, oherwydd gallai'r arholiadau orffen ar adegau gwahanol. Fel rhan o hyn, bydd angen i chi ystyried unrhyw ymgeiswyr sydd angen amser ychwanegol mewn arholiadau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Glanhau

Cyfeiriwyd at y **canllawiau a gyhoeddwyd ar lanhau lleoliadau nad ydynt yn ymwneud â gofal iechyd** yn ein canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a darparwyr ôl-16. Mae'r canllawiau hyn yn nodi cyngor ar lanhau cyffredinol ochr yn ochr â chyngor ar lanhau lleoliadau os bydd achos a amheuir o'r coronafeirws (COVID-19).

Nid yw'n ofynnol gadael ystafelloedd yn wag am gyfnod rhwng arholiadau, ar yr amod bod y glanhau a amlinellir uchod yn digwydd rhwng arholiadau.

Yr ystafell arholiadau

Ar gyfer arholiadau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, rhaid i'r pellter lleiaf i bob cyfeiriad o ganol i ganol cadeiriau ymgeiswyr fod yn 1.25 metr, yn unol â '**Chyfarwyddiadau'r JCQ ar gyfer cynnal arholiadau**'. Y pellter hwn yw'r pellter byrraf y mae'n rhaid ei gynnal a'i gadw ar gyfer myfyrwyr o fewn grŵp cyswllt. Ar gyfer arholiadau cymwysterau galwedigaethol, dylech ddilyn y canllawiau a bennwyd gan y sefydliad dyfarnu perthnasol.

Dylai pob ymgeisydd arall, boed mewn grwpiau cyswllt gwahanol, ymgeiswyr preifat neu'r rheini sy'n dychwelyd i'r ysgol neu'r coleg i sefyll arholiadau, eistedd 2 fetr ar wahân i'w gilydd. Gallant fod yn yr un ystafell ond dylid cadw pellter o 2 fetr rhwng ymgeiswyr sydd mewn grwpiau cyswllt gwahanol. Cyn belled â bod ymgeiswyr sydd mewn grwpiau cyswllt gwahanol yn aros 2 fetr ar wahân bob amser, ni ddylai hyn gyfrif fel cyswllt at ddibenion profi ac olrhain.

Nid oes terfyn cyffredinol ar nifer yr ymgeiswyr sy'n gallu eistedd mewn ystafell, ar yr amod bod y bwlch rhwng y desgiau'n gywir. Mae'r terfyn uchaf ar nifer yr ymgeiswyr sy'n gallu sefyll arholiad mewn ystafell gyda'i gilydd yn cael ei bennu ar sail y gofynion o ran bylchau rhwng desgiau. Fel y nodir yn y prif ganllawiau gweithredol, mae'n bwysig sicrhau awyru da a'i ddefnyddio i'r eithaf lle bynnag y bo modd.

Gall goruchwylwyr gerdded i fyny ac i lawr rhwng desgiau, ond rhaid cael pwyntiau hefyd yn yr ystafell lle gall y goruchwilydd sefyll o leiaf 2 fetr o'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

desgiau agosaf a gweld yr holl ymgeiswyr yn yr ystafell. Os bydd goruchwyllydd yn mynd yn agos at ddesg ond yn treulio'r rhan fwyaf o'r amser mewn mannau eraill, e.e. ar flaen neu gyrion yr ystafell, nid yw hynny'n eu gwneud yn gyswllt.

Gorchuddion wyneb

Dylech ddarllen yr adran ar [ddefnyddio gorchuddion wyneb at ddibenion iechyd](#) yn y canllawiau gweithredol. Nid oes angen i ymgeiswyr wisgo gorchuddion wyneb wrth sefyll arholiadau. Hefyd, nid oes angen i oruchwylwyr wisgo gorchuddion wyneb yn ystod arholiadau. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr a goruchwylwyr wisgo gorchuddion wyneb os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dylai lleoliadau ddefnyddio dull asesu risg i benderfynu a ddylid argymhell bod angen i ymgeiswyr a goruchwylwyr wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol lle nad yw'n bosibl cynnal pellter o 2 fetr. Gweler y [cyngor ar orchuddion wyneb](#).

Dylai pawb ddilyn y [gofynion ar wisgo gorchuddion wyneb](#) os ydynt yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i deithio i arholiadau.

Goruchwylwyr

Bydd gan eich ysgol neu goleg brotocolau yn eu lle ar gyfer ymwelwyr a staff dros dro. Gall goruchwylwyr symud rhwng gwahanol ysgolion a cholegau. Dylent sicrhau eu bod yn cael cyn lleied o gyswllt â phosibl ac yn cadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff eraill.

Bydd angen i chi sicrhau bod y goruchwylwyr yn cael eu briffio'n llawn cyn yr arholiadau ynghylch beth yw'r disgwyliadau arnynt o ran lleihau cyswllt a chynnal cymaint o bellter â phosibl oddi wrth staff eraill.

Nid yw'n ofynnol i oruchwylwyr wisgo menig wrth gasglu sgriptiau arholiad gan ymgeiswyr ond dylent olchi eu dwylo'n drylwyr ac yn amlach nag arfer ac yn enwedig ar ôl trafod papurau arholiad.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cadw pellter rhwng staff ac ymgeiswyr

Dylech gynghori goruchwylwyr a staff eraill i sefyll ochr yn ochr ag ymgeiswyr wrth ryngweithio â nhw yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

Ar gyfer cyfnodau hir o fwy na 15 munud, er enghraifft pan fo ysgrifenyddion/darllenwyr neu unigolion eraill yn rhoi cymorth i ymgeiswyr, dylai staff gadw pellter o 2 fetr lle bo modd a hynny drwy ddefnyddio ystafelloedd ar wahân ar gyfer hyn. Os nad yw hyn yn bosibl, dylent osgoi cyswllt wyneb yn wyneb agos a lleihau'r amser a dreulir o fewn 1 metr at unrhyw un.

Efallai na fydd y trefniadau hyn yn bosibl wrth weithio gyda rhai ymgeiswyr sydd ag anghenion cymhleth, ac felly dylid darparu cymorth addysgol yr ymgeiswyr hyn yn ôl yr arfer yn ystod arholiadau. I gael rhagor o wybodaeth, dylech ddarllen y [canllawiau](#) ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr sydd o dan anfantais.

Iechyd yr ymgeisydd

Mae'r [canllawiau i aelwydydd a allai fod wedi'u heintio â'r coronafeirws \(COVID-19\)](#) yn berthnasol drwyddi draw.

Gweithredu gan yr ysgol a'r coleg

Rhaid i ysgolion a cholegau gymryd camau'n gyflym pan fyddant yn dod i wybod bod ymgeisydd a gofrestrwyd ar gyfer cyfres arholiadau'r gaeaf wedi profi'n bositif ar gyfer y coronafeirws (COVID-19). Rhaid iddynt ddilyn y canllawiau a amlinellir yn y [canllawiau ar brofi ac olrhain cysylltiadau mewn lleoliadau addysg](#).

Ymgeiswyr â symptomau

Rhaid i unrhyw ymgeiswyr sydd â symptomau coronafeirws (COVID-19) aros gartref am 10 diwrnod o ddechrau'r symptomau a rhaid iddynt beidio â gadael eu cartrefi.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ni fydd yr ymgeiswyr yn gallu sefyll arholiadau yn ystod eu cyfnod ynysu. Os nad yw'r ymgeiswyr yn cael eu profi ar gyfer y coronafeirws (COVID-19), rhaid iddynt ynysu am 10 diwrnod o ddechrau'r symptomau.

Ymgeiswyr sy'n ynysu yn unol â chyngor iechyd y cyhoedd

Pan fo aelod o aelwyd yr ymgeisydd yn symptomatigrhaid i'r ymgeisydd ddilyn y [canllawiau hunanyynysu diweddaraf](#). Ni allant sefyll arholiadau yn ystod y cyfnod hunanyynysu.

Mae hyn hefyd yn berthnasol os gofynnir i'r ymgeisydd ynysu ar ôl dod i gysylltiad â rhywun sydd â'r feirws. Ni all ymgeiswyr sefyll arholiadau yn ystod eu cyfnod ynysu.

Ni ddylai ymgeiswyr sydd dan gwarantyn yn dilyn teithiau tramor penodol fynychu arholiadau yn ystod cyfnod y cwarantyn. Gweler y [canllawiau ar goridorau teithio](#) am restr gyfredol o'r gwledydd nad oes angen i bobl sy'n cyrraedd Cymru ar ôl ymweld â nhw fod o dan gwarantyn.

Ymgeiswyr sydd wedi cael prawf negyddol

Dylai ymgeiswyr ddilyn y canllawiau ar [ymgysylltu â'r Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu](#) am [ganlyniad eu prawf coronafeirws \(COVID-19\)](#) pan fyddant yn cael prawf negyddol. Mae'r canllawiau'n nodi'r amgylchiadau lle nad oes angen i ymgeiswyr hunanyynysu. Gallant fynychu arholiadau yn yr amgylchiadau hyn.

Ymgeiswyr sy'n agored iawn i niwed yn glinigol yn sgil y coronafeirws (COVID-19)

Dylai ymgeiswyr sy'n agored iawn i niwed yn glinigol gyfeirio at y [canllawiau gwarchod](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Addasiadau rhesymol

Rhaid i ysgolion a cholegau, yn unol â'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, barhau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau.

Mae JCQ, ar ran aelodau ei fwrdd arholi, yn cyhoeddi canllawiau helaeth ar sut all ysgolion a cholegau gefnogi ymgeiswyr ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau y gallai fod angen addasiadau rhesymol arnynt er mwyn sefyll eu harholiadau TGAU, Safon UG neu Safon Uwch. Mae JCQ wedi cyhoeddi **canllawiau atodol** ar gyfer cyfres arholiadau gaeaf 2020.

Bydd y gefnogaeth y byddai ymgeiswyr wedi'i chael ar gyfer arholiadau haf 2020 yn cael ei chyflwyno tan ddiwedd cyfres arholiadau'r gaeaf. Mae amserlenni wedi'u cyhoeddi ar gyfer gwneud ceisiadau am addasu rhesymol i'r ymgeiswyr hynny y mae eu hamgylchiadau wedi newid neu anghenion newydd wedi codi.

Bydd angen i'r cydlynnydd anghenion addysgol arbennig (AAA) sicrhau bod y trefniadau mynediad dal yn briodol, yn ymarferol ac yn rhesymol.

Os bydd amgylchiadau ymgeisydd yn newid, efallai y bydd angen i'r cydlynnydd AAA (lle bo angen) ddarparu tystiolaeth a chyflwyno cais ar-lein.

Rheoli Fersiynau

Fersiwn 2.6 (26 Rhagfyr 2020)

Ychwanegu cyfeiriad at lefelau rhybudd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Fersiwn 2.5 (26 Tachwedd 2020)

Diwygio'r geiriad ar ddefnyddio gorchuddion wyneb

Adran newydd ar awyru dros y gaeaf

Fersiwn 2.4 (16 Tachwedd 2020)

Adran ar ddefnyddio gorchuddion wyneb wedi'i ddiweddarau i argymhell defnyddio gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cymunedol ac ar gludiant penodol. Llinellau hefyd wedi'u hychwanegu i argymhell y dylai unrhyw ymwelwyr â'r safle, gan gynnwys rhieni, wisgo gorchudd wyneb

Fersiwn 2.3 (26 Hydref 2020)

Adran ar ddiogelu dysgwyr a staff agored i niwed wedi'i diweddarau, i argymhell bod staff sy'n eithriadol o agored i niwed yn gweithio gartref.

Canllawiau wedi'u hychwanegu ar awyru ac aerdymheru.

Fersiwn 2.2 (28 Medi 2020)

Ychwanegu cyfeiriadau at gyfyngiadau lleol

Ychwanegu rhagor o fanylion ar orchuddion wyneb, gan gynnwys cyfeiriadau at les, y mathau a'r defnydd a argymhellir o orchuddion wyneb, a'r cyfleusterau sy'n agored i'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cyhoedd

Ychwanegu cyfeiriadau at wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau dan do lle bo hynny'n briodol i'r gweithle, i staff dysgu seiliedig ar waith sy'n ymweld â gweithleoedd

Symleiddio cyfeiriadau at y system Profi, Olrhain, Diogelu a hunanynysu er mwyn cysylltu â chanllawiau ar wahân lle bo hynny'n bosibl

Ychwanegu dolenni ychwanegol/wedi'u diweddarau i'r canllawiau ar orchuddion wyneb, hunanynysu a chwaraeon a hamdden

Fersiwn 2.1 (2 Medi 2020)

Ychwanegu adran newydd ar orchuddion wyneb

Fersiwn 2 (20 Awst 2020)

Ychwanegu paragraff newydd, yn nodi y dylai darparwyr sicrhau bod mesurau rheoli cadarn ar waith, fel na fydd dysgwyr a staff yn agored i risg fwy o ran COVID-19 yn eu lleoliad dysgu na'r risg arferol o fewn eu cymuned leol

Ychwanegu dolen ar [leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws](#)

Ychwanegu dolen at y [canllawiau ar ddefnyddio canolfannau cymunedol amlbwrpas yn ddiogel](#)

Ychwanegu dolen at y canllawiau diweddaraf ar [gadw pellter cymdeithasol](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Diweddarau adrannau ar hunanwarchod ac unigolion “risg uwch” a’u hegluro, gan gynnwys:

- Eglurder ynghylch gweithio gartref ac ynghylch tystysgrifau meddygol i staff na ddylent ddychwelyd i’r gwaith ar hyn o bryd
- Eglurder ynghylch gofynion cadw pellter cymdeithasol i ddysgwyr a staff mewn grwpiau “risg uwch”
- Eglurder nad oes gofyn i’r rheini sy’n byw gydag unigolyn “risg uwch” ddilyn gofynion arbennig o ran cadw pellter cymdeithasol (yn wahanol i’r rheini sy’n byw gydag unigolyn sy’n hunanwarchod)
- Ychwanegu dolen at yr [adnodd asesu risg](#) newydd
- Ychwanegu dolen at [ganllawiau](#) Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a’r Gynaecolegwyr i fenywod beichiog a chyflogwyr

Eglurder na ddylai myfyrwyr sy’n dilyn rhaglenni Sgiliau Byw’n Annibynnol a oedd yn hunanwarchod, ac na allant ddeall a chydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol, fynychu’r coleg.

Eglurder ynghylch dysgu cyfunol i ddysgwyr Sgiliau Byw’n Annibynnol ar lefelau uwch

Ychwanegu nodyn na ddylai staff symud o un grŵp cyswllt i un arall (oni bai eu bod yn dilyn gofynion cadw pellter cymdeithasol yn llym)

Eglurder ychwanegol nad oes angen i aelodau o’r un aelwyd gadw pellter oddi wrth ei gilydd

Ychwanegu categori newydd ar gyfer dysgwyr Addysg Uwch mewn sefydliadau Addysg Bellach

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma’r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Canllawiau ar weithredu'n ddiogel o fis Medi 2020 ymlaen \(fersiwn 2.6\)](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-o-fis-medi-2020-ymlaen-fersiwn-26-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).